



Cynllun Pwnc Y Gymraeg

Chwefror 2020

CYMRAEG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd-destun y Cynllun

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae ['Tuag at 2020 a thu hwnt'](#) yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith cynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.

Mae'r Cynllun Academaidd Cenedlaethol yn amlinellu egwyddorion, themâu ac amcanion ar y lefel uchaf er mwyn datblygu addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg. Bwriad y cynlluniau pynciol yw rhoi'r egwyddorion hyn ar waith ar lefel pynciau unigol er mwyn cytuno ar amcanion fesul pwnc, neu grwpiau o bynciau, a gweithredu arnynt. Mae'r cynlluniau unigol yn galluogi i'r Coleg, y sector addysg uwch, darlithwyr, myfyrwyr a chyflogwyr ystyried anghenion penodol a thrywydd y pwnc, ynghyd â pha elfennau o'r cynlluniau sydd angen eu blaenoriaethu er mwyn datblygu gwahanol bynciau.

Ers ei sefydlu yn 2011, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi buddsoddi'n sylweddol ym maes y Gymraeg drwy'r Cynllun Staffio, ysgoloriaethau israddedig ac ôl-raddedig, ynghyd â thrwy gyllido a chefnogi adnoddau a gweithgareddau cydweithredol. Cyhoeddwyd y Cynllun Pwnc gwreiddiol yn 2013.

Mae'r Cynllun Pwnc hwn, sy'n gynllun tymor canolig i hir, yn gosod egwyddorion a nodau ar waith ar lefel y ddisgyblaeth.

Cyd-destun/Cefndir y Pwnc

Fel y nodir yn y *Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg* (ASA, 2016)¹:

Mae Cymraeg yn bwnc academaidd eang ac amrywiol sy'n cwmpasu'r iaith a'i llenyddiaeth, o'i dechreuad hanesyddol hyd at y presennol, y dulliau o'i defnyddio a'i hyrwyddo mewn cyd-destun cyfoes a sicrhau ei ffyniant yn y dyfodol. (1.1)

Mae'r ddogfen honno hefyd yn nodi bod 'y cyfraniad a wna'r pwnc at wireddu'r dyhead o greu gwlad ddwyieithog yn un canolog' (1.2). Gyda'r gyfundrefn newydd o safonau iaith bellach wedi dod i rym, a lansiad gweledigaeth y Llywodraeth, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*, mae pwysigrwydd y Gymraeg fel disgyblaeth yn fwy amlwg nag erioed.

Er hynny, ac fel yn achos ieithoedd eraill a phynciau eraill yn y Dyniaethau, mae'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio'r pwnc hyd at Safon Uwch yn peri pryder. Mae hynny'n ffurfio rhan amlwg o gyd-destun y cynllun hwn.

Yn wyneb hynny, yn ystod gwanwyn 2018, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp rhanddeiliaid er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc. Mae'r aelodaeth yn cynnwys y cyrff canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Adrannau/Ysgolion y Gymraeg yn y prifysgolion
- Consortia addysg rhanbarthol a chynrychiolwyr o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg
- Cymwysterau Cymru

¹ <https://www.qaa.ac.uk/cy/y-cod-ansawdd/datganiadau-meincnodi-pwnc>

- CBAC
- CYDAG
- Yr Urdd
- Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Hyd yn hyn mae'r grŵp wedi cwrdd yn chwarterol i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r her o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel Safon Uwch. Mae'r gweithlu addysg yn un sector blaenoriaeth o fewn y cynllun, ond mae hefyd angen sicrhau cyflenwad digonol o raddedigion y Gymraeg er mwyn bwydo sectorau gwaith eraill a sicrhau hyfywedd y ddisgyblaeth at y dyfodol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar nifer o amcanion tymor byr, canolig a hir ac mae rhai elfennau eisoes ar waith, o dan arweiniad gwahanol bartneriaid. Ar y cyd â'r Coleg Cymraeg, mae adrannau Cymraeg y prifysgolion wedi cynnal prosiect 'Y Gymraeg ar Daith', sydd yn bwydo un o amcanion y cynllun. Mae pwyslais amlwg yn cynllun presennol, felly, ar gynyddu'r nifer sy'n astudio Safon Uwch.

Nodwedd hanfodol arall o'r Gymraeg fel pwnc prifysgol yw ymchwil o'r radd flaenaf, fel y gwelir o ganlyniadau arolygon y RAE/REF. Mae ymchwil flaengar yn bwydo dysgu arloesol, ac mae'n hanfodol fod y ddwy agwedd yn datblygu gyda'i gilydd.

Proses

Datblygir y broses o gynllunio pynciol i edrych yn fwy cyflawn ar y pwnc dan sylw a chynnig llwybrau i ddatblygu'r pwnc ar sail ystod o gwestiynau a fydd yn cyfrannu at sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf.

Gofynnwyd i brifysgolion gwblhau ffurflen cynllunio pynciol fel un cam yn y broses o lunio'r Cynllun Pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol ynghylch lefel darpariaeth, niferoedd myfyrwyr a lefel staffio ym mlwyddyn academiaidd 2016/17. Defnyddir data 2016/17 fel gwaelodlin er mwyn sicrhau cysondeb gyda Chynlluniau Pwnc yr holl ddisgyblaethau eraill. Mae'r targedau yn y Cynllun yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau uchelgeisiol ond cyraeddadwy o ran datblygiad y maes drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drafftwyd y Cynllun Pwnc gan Swyddogion y Coleg Cymraeg a'r Panel Pwnc, gyda chyfle i brifysgolion ymgynghori ar lafar ac yn ysgrifenedig, cyn ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd Academiaidd y Coleg Cymraeg.

Egwyddorion a Themâu

Mae'r egwyddorion a'r themâu a osodwyd yn y Cynllun Academiaidd gwreiddiol yn parhau'n weithredol tra bod y Cynllun newydd yn ystod y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar y nod o sicrhau y cynigir addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun

Mae Cynllun Pwnc y Gymraeg yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2018/19 hyd at 2022/23. Defnyddir y ffram amser hyn i gyd-fynd â'r amcanion a osodwyd yng Nghynllun Gweithredu Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc. Amcanion tymor byr (1 blwyddyn) yn cychwyn yn 2018/19; tymor canolig (1–3 mlynedd) 2020/21; tymor hir (3–5 mlynedd) 2022/23.

Sefyllfa (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr
Prifysgol Abertawe	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	1 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 6 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 1 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 6 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 25 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1-BI4.
Prifysgol Aberystwyth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	2.5 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 9 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 2.5 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 8 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 89 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.
Prifysgol Bangor	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys	3 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

	darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	3 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	60 yn gallu siarad Cymraeg BI1-BI4.
Prifysgol Caerdydd	O leiaf 120 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. 180 credyd MA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.	11 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 11 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 (CALI) ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 65 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	<i>Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cynnig MA Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd sy'n cynnwys modiwlau sy'n berthnasol i'r Gymraeg fel pwnc.</i>	<i>Nid yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cynnig y Gymraeg fel pwnc ar lefel israddedig. Mae'r brifysgol yn cyfrannu at weithgareddau'r Panel Pwnc Iaith a Llên.</i>	<i>Amherthnasol – darpariaeth ôl-raddedig yn unig.</i>

Sefyllfa (2017/18)			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr
Prifysgol Abertawe	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	1 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 0 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 28 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.
Prifysgol Aberystwyth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	3 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 2 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 82 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.
Prifysgol Bangor	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	3 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 6 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 3 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 65 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.

		6 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	
Prifysgol Caerdydd	O leiaf 120 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. 180 credyd MA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.	1 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 10 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 1 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 10 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 (CALI) ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 89 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.

Sefyllfa Gyfredol (2018/19)			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr
Prifysgol Abertawe	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	3 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 3 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 34 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.
Prifysgol Aberystwyth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	1 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 8 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 1 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 8 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 63 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.
Prifysgol Bangor	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	3 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 6 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 3 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 64 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.

		6 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	
Prifysgol Caerdydd	O leiaf 120 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. 180 credyd MA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.	1 aelod o staff rhan amser yn siarad Cymraeg 10 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 1 aelod o staff rhan amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 10 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 (CALI) ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 98 yn gallu siarad Cymraeg BI1–BI4.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

<p>Profiad Myfyrwyr</p>	<p>Mae profiad y myfyriwr yn ganolog i astudio gradd yn y Gymraeg. Mae'r sefydliadau'n cynnig amrediad o brofiadau i fyfyrwyr a hynny mewn adrannau agos atoch sydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tiwtor personol a gwasanaethau cefnogol adrannol cyfrwng Cymraeg • Lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd i weithio fel mentoriaid a llysgenhadon • Cefnogaeth i fyfyrwyr i ymgeisio am Dystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol • Rhaglen o weithgareddau cymdeithasol a gefnogir gan ganghennau'r Coleg yn creu cymuned Gymraeg sy'n annog myfyrwyr i gymdeithasu a mwynhau eu bywyd y tu hwnt i astudiaethau academaidd yn ogystal. <p>Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol i Fyfyrwyr 2019 yn dangos bod myfyrwyr sydd yn astudio gradd yn y Gymraeg ymhlith y myfyrwyr mwyaf bodlon yn y sefydliadau. Gweler y cyfraddau boddhad myfyrwyr yn ôl prifysgol isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bangor: 100% bodlonrwydd • Aberystwyth: 100% am fodlonrwydd cyffredinol • Caerdydd: 100% bodlonrwydd • Abertawe: 100% bodlonrwydd.
<p>Darlithwyr</p>	<p>Gall unrhyw un sy'n aelod o'r Coleg Cymraeg elwa ar y Rhaglen Datblygu Staff, a hefyd ar gynllun newydd y Darlithwyr Cysylltiol.</p> <p>Mae nifer dda o ddarlithwyr yn y maes yn genedlaethol, ac yn cwmpasu ystod o arbenigeddau. Y flaenoriaeth yw cynnal y lefelau staffio presennol. Nodwyd bod llwybrau dechreuwyr ac ail iaith yn fwy dwys o ran oriau dysgu, yn arbennig yn Rhan 1.</p> <p>Buddsoddodd y Coleg mewn nifer o ysgoloriaethau ymchwil ym maes y Gymraeg dros y blynyddoedd, a dyfarnwyd pum swydd cynllun staffio.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prifysgol Caerdydd: darlithyddiaeth Cymraeg Ail Iaith wedi parhau ar ddiwedd y pum mlynedd • Prifysgol Caerdydd: darlithyddiaeth leithyddiaeth y Gymraeg wedi parhau ar ddiwedd y pum mlynedd

	<ul style="list-style-type: none"> • Prifysgol Aberystwyth: darlithyddiaeth Cymraeg Proffesiynol wedi parhau ar ddiwedd y pum mlynedd cychwynnol • Prifysgol Aberystwyth: darlithyddiaeth Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol wedi parhau ar ddiwedd y tair blynedd cychwynnol. • Prifysgol Abertawe: Cymraeg Ail Iaith – y swydd wedi parhau ar ddiwedd y pum mlynedd. <p>Ym Mhrifysgol Aberystwyth, er enghraifft, mae staff yr adran yn cynnwys arbenigwyr mewn llenyddiaeth Gymraeg (hanesyddol a chyfoes) a theori beirniadol, ysgrifennu creadigol, cyfieithu, Cymraeg Proffesiynol, Gwyddeleg a Gaeleg yr Alban. Mae'r adran yn llwyddo i gynnig modiwlau craidd ar gyfer Cymraeg (anrhydedd sengl a chyfuniadau cydanrhydedd), Cymraeg Proffesiynol, Cymraeg Ail Iaith, Cymraeg yr Ieithoedd Celtaidd ac Astudiaethau Celtaidd, yn ogystal â chynnig dewis eang o fodiwlau dewisol, a'r rheiny wedi eu gwreiddio mewn ymchwil.</p> <p>Bydd angen sicrhau bod yr amrywiaeth modiwlau a'r ddarpariaeth eang yn parhau ar draws Cymru. Dylid datblygu strategaeth benodol er mwyn adnabod a meithrin myfyrwyr sy'n debygol o ddod yn fyfyrwyr ymchwil ar ôl graddio.</p>
Cwricwlwm	<p>Fel y nodir yn y <i>Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg</i> (ASA, 2016):</p> <p>Craidd y pwnc yw'r iaith Gymraeg, ei natur, ei hanes a'i sefyllfa bresennol, a llenyddiaeth Gymraeg o bob cyfnod. Gall astudiaethau llenyddol gynnwys drama, ffilm, teledu, radio cyfryngau newydd, newyddiaduraeth, llên gwerin ac ysgrifennu creadigol. Un o nodweddion arbennig y Gymraeg yw ei hanes hir a chryfder ei thraddodiad llenyddol. Bydd cynlluniau gradd yn amrywio. Bydd rhai yn cynnig cyfle ar gyfer astudiaeth fanwl o gyfnodau neilltuol, neu o fathau o lenyddiaeth, neu o agweddau ar hanes a datblygiad yr iaith. Gall astudiaethau ieithyddol gynnwys meysydd megis ieithyddiaeth, tafodieitheg, dwyieithrwydd, cyfieithu, cynllunio a pholisi iaith. Bydd galw cynyddol mewn addysg, llywodraeth leol a chanol, y cyfryngau a byd busnes am bobl yn medru gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae darpariaeth eang o fodiwlau i ddiwallu'r galw hwnnw gan gynnwys cyfieithu, is-deitlo, cynllunio iaith a sgiliau busnes. Yn y meysydd hyn ceir mwy o bwyslais ar sgiliau iaith ymarferol nag ar hanes yr iaith a'i llenyddiaeth. Mae gan y pwnc ddimensiwn rhyngwladol, gan gynnwys iaith a diwylliant cymunedau Cymraeg ledled y byd. (2.3)</p> <p>Gall gradd anrhydedd yn y pwnc gynnwys astudio un neu ragor o'r ieithoedd Celtaidd eraill a'u llenyddiaethau, o weithiau llenyddol mewn ieithoedd eraill ac o sefyllfaoedd amlieithog cyffelyb. (2.4)</p>

	<p>Gellir astudio rhaglenni gradd a chanddynt ffocws mwy galwedigaethol, sy'n rhoi sylw penodol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd proffesiynol.</p> <p>Ceir nifer o raddau cydanrhydedd neu integredig yn nifer o'r sefydliadau lle y mae modd cyfuno'r Gymraeg â phynciau sy'n cynnwys Addysg, Astudiaethau Crefyddol, Athroniaeth, Busnes, Cerddoriaeth, Cymdeithaseg, Drama, Gwleidyddiaeth, Gwyddor Chwaraeon, Hanes, Ieithyddiaeth, Saesneg (iaith a llenyddiaeth), Ieithoedd Modern, y Gyfraith, Newyddiaduraeth etc.</p> <p>Mae'r ystod o ddarpariaeth ar hyn o bryd yn cynnwys ffrydiau dechreuwyr, ail iaith ac iaith gyntaf. Cynigir ystod eang a chyfoethog o fodiwlau llenyddol, beirniadol, creadigol, ieithyddol a phroffesiynol ar draws y sefydliadau.</p>
<p>Canlyniadau Myfyrwyr</p>	<p>Mae canlyniadau myfyrwyr sy'n astudio'r Gymraeg yn cymharu'n ffafriol â myfyrwyr ar draws y prifysgolion. Ceir enghreifftiau penodol o fyfyrwyr sy'n llwyddo i safon uchel ar lwybrau iaith gyntaf ac ail iaith. Bydd y Coleg Cymraeg yn parhau i gydweithio â'r prifysgolion er mwyn adnabod a thynnu sylw at y llwyddiannau hyn.</p> <p>Mae nifer o gyfleoedd ar gael i fyfyrwyr elwa ar astudiaethau ôl-raddedig, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ym Mhrifysgol Aberystwyth, cynigir MA Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, ynghyd â graddau ymchwil MPhil a PhD. • Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cynnig MA Dwyieithrwydd ac Amlieithrwydd.
<p>Adnoddau</p>	<p>Mae'r Coleg Cymraeg wedi cefnogi nifer o brosiectau ac adnoddau yn y maes (a meysydd cysylltiedig), sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Esboniadur Beirniadaeth a Theori (2 brosiect) ▪ Llyfrgell Adnoddau – Categori Cymraeg, Categori Theatr, Drama a Pherfformio, Categori Ffilm a Theledu, Categori Hanes a Hanes Cymru, Categori Ieithyddiaeth, Categori Newyddiaduraeth, Archif S4C ▪ Cynllun Y Gymraeg ar Daith ▪ Llawlyfr Meistrol'i'r Gymraeg ▪ Ysgol Haf Cymraeg Ail Iaith (Rhowch Gynnig Arni) ▪ E-lawlyfr Ieithyddiaeth (i'w gyhoeddi erbyn tymor yr haf 2019).

	<p>Mae'r Coleg hefyd wedi dyfarnu prosiect i Wasg Prifysgol Cymru, sef llawlyfr yn amlinellu beth yw astudio'r Gymraeg ac i ddangos ehangder y pwnc. Caiff pob adran y cyfle i gyfrannu at y llawlyfr a bydd y Panel Iaith a Llên yn derbyn adroddiadau cynnydd.</p> <p>Dylid sicrhau bod ysgolion a cholegau addysg bellach Cymru yn ymwybodol o'r deunydd sydd ar gael. Gwneir hyn er mwyn cryfhau llwybr dilyniant y pwnc.</p>
<p>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</p>	<p>Mae'r angen am uwch-sgiliau Cymraeg yn bwysicach nag erioed. Mae <i>Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr</i>² yn allweddol ac yn gosod pwyslais penodol ar ddefnydd y Gymraeg yn y gweithle, gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws pob sector cyflogaeth.</p> <p>Gall astudio gradd yn y Gymraeg arwain at nifer o lwybrau gyrfa cyffrous, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu: athrawon, tiwtoriaid Cymraeg i oedolion, darlithwyr prifysgol • Y Cyfryngau: cyflwynwyr a newyddiadurwyr • Ysgrifennu: awduron a golygyddion • Hyrwyddo'r Gymraeg: swyddogion iaith • Cyfieithwyr • Rheoli Treftadaeth a Thwristiaeth • Marchnata • Cysylltiadau Cyhoeddus • Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd • Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Rheoli Busnes <p>Dengys ystadegau DLHE y Gymraeg bod dros 90% o raddedigion mewn swyddi proffesiynol neu'n dilyn cwrs pellach chwe mis wedi iddynt raddio.</p> <p>Mae Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg yn agored i bob myfyriwr, os ydynt yn derbyn ysgoloriaeth ai peidio. Dylid annog myfyrwyr i gwblhau'r Dystysgrif Sgiliau Iaith.</p> <p>Ym Mhrifysgol Abertawe, gellir astudio BA Cymraeg gyda Blwyddyn mewn Gwaith. Ceir hefyd nifer o fodiwlau sy'n cynnwys profiad o fyd gwaith/lleoliadau gwaith e.e.</p>

² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

	<ul style="list-style-type: none"> - Modiwlau Cymraeg Proffesiynol (lefelau 4 a 5) - Modiwl Paratoi ar gyfer Gwaith (lefel 5) - Modiwl Y Gymraeg ac Addysg (lefel 5) - Modiwl Y Gymraeg yn y Gweithle (lefel 6). <p>Ym Mhrifysgol Caerdydd, mae pob myfyriwr israddedig ac MA yn cael cyfnod o brofiad gwaith sydd yn rhan annatod o'r cwricwlwm. Mae darpariaeth gyrfaoedd cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb.</p> <p>Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae modiwlau ac iddynt gynnwys proffesiynol a galwedigaethol ar gael i holl fyfyrwyr yr adran, ac nid myfyrwyr Cymraeg Proffesiynol yn unig.</p>
<p>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</p>	<p>Lansiwyd prosiect 'Y Gymraeg ar Daith' ym mis Tachwedd 2017, syniad a dardodd o drafodaethau yn y Panel Pwnc Iaith a Llên a chyda Swyddog Pwnc y Gymraeg yn CBAC. Nod y prosiect yw ysgogi disgyblion i barhau i astudio'r Gymraeg ar gyfer Safon Uwch. Mae beirdd yn ymweld ag ysgolion uwchradd er mwyn trafod eu cerddi sydd ar y cwricwlwm TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Mae'r ail sesiwn yn canolbwyntio ar y manteision o barhau i astudio'r Gymraeg ac yn cael ei chynnal gan ddarlithwyr (neu staff y Coleg os nad oes modd i ddarlithwyr fod ar gael). Ymwelwyd â thros 30 o ysgolion a thros 2000 o blant dros gyfnod o dair wythnos ym mis Tachwedd 2018. Mae'r daith wedi llwyddo ar sawl lefel, ac yn gyfle euraidd i hyrwyddo'r gyrfaoedd posibl y mae graddedigion yn eu dilyn. Cyllidir y prosiect gan y Coleg Cymraeg ac mae'r Swyddog Pwnc yn cydlynu'r trefniadau â'r ysgolion, y beirdd ac adrannau Cymraeg y prifysgolion. Trafodwyd y cynllun yn helaeth gyda'r Panel Iaith a Llên ac ymgynghorwyd ag athrawon a Swyddog Pwnc y Gymraeg yn CBAC. Mae egwyddor sylfaenol y cynllun yn gyson ond caiff natur a chynnwys yr ail sesiwn ei fireinio'n flynyddol.</p> <p>Mae gan yr adrannau/ysgolion agwedd ragweithiol tuag at recriwtio ac ymgysylltu ag ysgolion, sy'n cynnwys cynnal dosbarthiadau a chyrtsiau wedi eu seilio ar fanyleb Safon Uwch.</p> <p>Mae'r Coleg Cymraeg yn cyllido ac yn darparu cefnogaeth weithredol i'r prosiect Ysgol Haf Cymraeg Ail Iaith ('Rhowch Gynnig Arni') i ddisgyblion Safon Uwch a fydd yn teithio'n flynyddol o amgylch y prifysgolion o haf 2019 ymlaen. Mae prosiectau fel hyn yn sicrhau cydweithio ar draws sectorau er mwyn ceisio cynyddu'r nifer sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch, gan gynyddu'r pwll a fydd yn mynd ymlaen i astudio gradd yn y Gymraeg yn y brifysgol.</p> <p>Gyda datblygiad grŵp rhanddeiliaid y Gymraeg, mae gwaith ymchwil megis grwpiau ffocws gyda phobl ifanc a rhieni a'r rhesymau pam y maent yn dewis Cymraeg, neu'n dewis peidio ag astudio'r Gymraeg, yn mynd rhagddo. Bydd y wybodaeth hon yn fuddiol wrth gynllunio at ddyfodol y pwnc.</p>

	<p>Mae athrawon yn aelodau o'r grŵp rhanddeiliaid ac wedi rhannu syniadau ar sut i dargedu gweithgareddau yn y dull mwyaf addas e.e. nosweithiau rhieni er mwyn annog disgyblion i ystyried y Gymraeg fel pwnc Safon Uwch.</p> <p>Mae rhai colegau Addysg Bellach yn cynnig darpariaeth Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith ac mae dysgwyr o rhai sefydliadau wedi mynd i'r Ysgol Haf Rhowch Gynnig Arni, ac wedi parhau i astudio'r Gymraeg yn y brifysgol.</p> <p>Mae Cronfa'r Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru, wedi cynnig cyfle i adrannau Cymraeg y prifysgolion ac i adrannau Cymraeg mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach wneud cais i gynnal prosiectau a gweithgareddau sydd yn hybu dilyniant.</p>
--	---

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2018/19)	Targedau 3 mlynedd (2020/21)	Targedau 5 mlynedd (2022/23)
1. Lefel Darpariaeth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn.
2. Niferoedd Darlithwyr	Cynnal lefelau staffio presennol gan sicrhau darpariaeth oddi wrth staff a chanddynt rychwant eang o arbenigeddau.	Cynnal lefelau staffio presennol gan sicrhau darpariaeth oddi wrth staff a chanddynt rychwant eang o arbenigeddau.	Cynnal lefelau staffio presennol gan sicrhau darpariaeth oddi wrth staff a chanddynt rychwant eang o arbenigeddau.
3. Niferoedd Myfyrwyr	<i>200 myfyriwr</i>	<i>240 myfyriwr</i>	<i>280 myfyriwr</i>
4. Profiad Myfyrwyr (a Darlithwyr)	Parhau i gynnig cyfleoedd trwy brosiectau amrywiol i'r myfyrwyr.	Parhau i gynnig cyfleoedd trwy brosiectau amrywiol i'r myfyrwyr. Trafod syniadau posibl gyda'r holl sefydliadau ar gyfer prosiectau cydweithredol.	Parhau i gynnig cyfleoedd trwy brosiectau amrywiol i'r myfyrwyr. Trafod syniadau posibl gyda'r holl sefydliadau ar gyfer prosiectau cydweithredol.
5. Adnoddau	<p>Fel rhan o broses gomisiynu adnoddau'r Coleg Cymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r maes • Adnabod yr adnoddau sy'n bodoli eisoes sydd angen eu diweddarau/eu haddasu 	<p>Proses barhaus o werthuso, addasu ac adnabod adnoddau.</p> <p>Y Coleg yn comisiynu'n ddibynol ar gyllid a blaenoriaethau.</p>	<p>Proses barhaus o werthuso, addasu ac adnabod adnoddau.</p> <p>Y Coleg yn comisiynu'n ddibynol ar gyllid a blaenoriaethau.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> Comisiynu a chreu'r adnodd/au. 		
6. Hyrwyddo dilyniant yn y maes	<p>Cynnal Y Gymraeg ar Daith ym mis Tachwedd 2018.</p> <p>Cynnal yr Ysgol Haf Cymraeg Ail Iaith (Rhowch Gynnig Arni).</p>	<p>Gwerthuso'r gweithgareddau yn flynyddol ac addasu yn ôl yr angen.</p> <p>Prifysgolion i sefydlu proses dracio pan fo disgyblion sydd wedi elwa o'r gweithgareddau yn mynd i'r brifysgol (cynnwys cwestiwn wrth gofrestru myfyrwyr yn yr adrannau Cymraeg).</p> <p>Cynnal y gweithgaredd/au a gefnogwyd o Gronfa'r Gymraeg mewn Addysg.</p>	<p>Gwerthuso'r gweithgareddau yn flynyddol ac addasu/datblygu.</p> <p>Ystyried canlyniadau'r broses dracio wrth gynllunio gweithgareddau.</p>
7. Cynllun Gweithredu Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc (grŵp rhan-ddeiliaid)	<p>Cyfrannu at amcanion o fewn y cynllun. Cyfrannu at drafodaethau'r grŵp rhanddeiliaid ac ymateb i geisiadau am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn medru symud y gwaith yn ei flaen.</p> <p>Ymateb i ymgynghoriadau ar ddatblygu manylebau TGAU a Safon Uwch Cymraeg. Cynnal trafodaethau manwl yn y Panel Iaith a Llên er mwyn cyflwyno negeseuon cyson a chlir.</p>	<p>Cyfrannu at amcanion o fewn y cynllun. Cyfrannu at drafodaethau'r grŵp rhanddeiliaid ac ymateb i geisiadau am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn medru symud y gwaith yn ei flaen.</p> <p>Ymateb i ymgynghoriadau ar ddatblygu manylebau TGAU a Safon Uwch Cymraeg. Cynnal trafodaethau manwl yn y Panel Iaith a Llên er mwyn cyflwyno negeseuon cyson a chlir.</p>	<p>Cyfrannu at amcanion o fewn y cynllun. Cyfrannu at drafodaethau'r grŵp rhanddeiliaid ac ymateb i geisiadau am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn medru symud y gwaith yn ei flaen.</p> <p>Ymateb i ymgynghoriadau ar ddatblygu manylebau TGAU a Safon Uwch Cymraeg. Cynnal trafodaethau manwl yn y Panel Iaith a Llên er mwyn cyflwyno negeseuon cyson a chlir.</p>

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2018/19)	Targedau 3 mlynedd (2020/21)	Targedau 5 mlynedd (2023/24)
Prifysgol Abertawe	Darpariaeth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig. O leiaf 180 credyd ar gael ar gwrs MA.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig. O leiaf 180 credyd ar gael ar gwrs MA.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig. O leiaf 180 credyd ar gael ar gwrs MA.
	Myfyrwyr	O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn.
	Staff	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.
	Profiad y myfyriwr a chyflogadwyedd	Parhau i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr. Parhau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gweithle trwy gynnig modiwlau Cymraeg Proffesiynol a chyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd â chyflogwyr. Parhau i gynnig darpariaeth lefel MA Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Parhau i gynnig maes llafur amrywiol sy'n cynnwys iaith, llên,	Cynnig mwy o gyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned. Parhau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gweithle trwy gynnig modiwlau Cymraeg Proffesiynol a chyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd â chyflogwyr. Parhau i gynnig darpariaeth lefel MA Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Parhau i gynnig maes llafur amrywiol sy'n cynnwys iaith, llên, beirniadaeth	Cynnig mwy o gyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned. Parhau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gweithle trwy gynnig modiwlau Cymraeg Proffesiynol a chyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd â chyflogwyr. Parhau i gynnig darpariaeth lefel MA Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol.

		beirniadaeth lenyddol, ysgrifennu creadigol a'r ieithoedd Celtaidd.	lenyddol, ysgrifennu creadigol a'r ieithoedd Celtaidd.	Parhau i gynnig maes llafur amrywiol sy'n cynnwys iaith, llên, beirniadaeth lenyddol, ysgrifennu creadigol a'r ieithoedd Celtaidd.
	Adnoddau	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori, Llawlyfr meistrolï'r Gymraeg a'r Llawlyfr Hen Gymraeg</i> . Cyfrannu at <i>Lawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori, Llawlyfr meistrolï'r Gymraeg a'r Llawlyfr Hen Gymraeg</i> . Hyrwyddo <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori, Llawlyfr meistrolï'r Gymraeg a'r Llawlyfr Hen Gymraeg</i> . Hyrwyddo <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .
Prifysgol Aberystwyth	Darpariaeth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig (dechreuwr, ail iaith ac iaith gyntaf) ac ôl-raddedig, yn y Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd. O leiaf 180 credyd ar gael ar gwrs MA.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig (dechreuwr, ail iaith ac iaith gyntaf) ac ôl-raddedig, yn y Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd. O leiaf 180 credyd ar gael ar gwrs MA.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig (dechreuwr, ail iaith ac iaith gyntaf) ac ôl-raddedig, yn y Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd. O leiaf 180 credyd ar gael ar gwrs MA
	Myfyrwyr	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn.	O leiaf 20 myfyriwr ym mhob blwyddyn.	O leiaf 20+ myfyriwr ym mhob blwyddyn.
	Staff	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.	O leiaf 8.5 aelod staff CALI
	Profiad y myfyriwr a chyflogadwyedd	Parhau i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i'r myfyriwr. Parhau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gweithle trwy gynnig modiwlau a chyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd â chyflogwyr.	Cynnig mwy o gyfleoedd profiad gwaith i'r myfyriwr a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned.	Cynnig mwy o gyfleoedd profiad gwaith i'r myfyriwr a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned.

	Adnoddau	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr meistrolï'r Gymraeg</i> . Cyfrannu at <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .	Hyrwyddo <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr Meistrolï'r Gymraeg</i> . Hyrwyddo <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr meistrolï'r Gymraeg</i> . Hyrwyddo <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .
Prifysgol Bangor	Darpariaeth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig. O leiaf 180 credyd ar gael ar gwrs MA.	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig. O leiaf 180 credyd ar gael ar gwrs MA.
	Myfyrwyr	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn.	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn.
	Staff	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.
	Profiad y myfyriwr a chyflogadwyedd	Parhau i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr. Parhau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gweithle trwy gynnig modiwlau a chyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd â chyflogwyr.	Cynnig mwy o gyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned.	Cynnig mwy o gyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned.
	Adnoddau	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr Meistrolï'r Gymraeg</i> . Cyfrannu at <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr Meistrolï'r Gymraeg</i> . Hyrwyddo <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr Meistrolï'r Gymraeg</i> . Hyrwyddo <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .
Prifysgol Caerdydd	Darpariaeth	O leiaf 120 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 120 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 120 credyd israddedig ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

		O leiaf 180 credyd MA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 180 credyd MA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 180 credyd MA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Myfyrwyr	O leiaf 20 myfyriwr (CALI) ym mhob blwyddyn.	O leiaf 23 (CALI) myfyriwr ym mhob blwyddyn.	O leiaf 25 myfyriwr (CALI) ym mhob blwyddyn.
	Staff	O leiaf 8.5 aelod staff CALI.	O leiaf 9 aelod staff CALI.	O leiaf 9 aelod staff CALI.
	Profiad y myfyriwr a chyflogadwyedd	Parhau i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr. Parhau i bwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gweithle trwy gynnig modiwlau a chyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd â chyflogwyr.	Parhau i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned.	Parhau i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i'r myfyrwyr a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned.
	Adnoddau	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr Meistrolî'r Gymraeg</i> . Arwain ar lunio <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr Meistrolî'r Gymraeg</i> . Hyrwyddo <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .	Hyrwyddo'r <i>Esboniadur Beirniadaeth a Theori a Llawlyfr Meistrolî'r Gymraeg</i> . Hyrwyddo <i>Llawlyfr Astudio'r Gymraeg</i> .